

## 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Cynhelir etholiadau yn unol â'r is-ddeddf hon ar gyfer y swyddi canlynol:
- Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion
  - Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrrwyr
  - Swyddogion Gwirfoddol
  - Cynrychiolwyr i gynadleddau UCM (lle bo'n briodol)

## 2. Cymhwysedd Etholiadol

- 2.1 Dim ond aelodau cyffredin llawn UMABer all sefyll a phleidleisio yn etholiadau UMABer, ar yr amodau canlynol:
- Ni all yr un aelod sefyll etholiad am fwy nag un rôl mewn pob math o rôl.
  - Cyfyngir aelodau i ddau gyfnod yn rôl Swyddog Ymddiriedolwr.
- 2.2 Yn achos y Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA, bydd yr Undeb yn agor y cyfnod sefyll dim ond i'r rheiny sy'n siarad ac sy'n ysgrifennu Cymraeg yn rhugl ac sydd wedi bod yn aelod o UMCA yn y semester blaenorol.
- Ystyrir Aelodau'n rhugl os ydynt yn cyd-fynd ag un neu fwy o'r meini prawf canlynol:
    - Maent wedi astudio Cymraeg iaith gyntaf hyd lefel TGAU neu Safon Uwch,
    - Maent yn meddu ar 'Dystysgrif Sgiliau Iaith'.
    - Caiff o leiaf un rhan o dair o'u gradd israddedig ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Maent yn derbyn ysgoloriaeth lawn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 2.3 Yn achos y rolau sy'n cynrychioli myfyrwyr o grwpiau rhyddhad ac adrannau o gorff y myfyrwyr, gall yr Undeb gyfyngu'r ymgeiswyr i'r rheiny sy'n hunan-uniaethu â'r grwpiau rhyddhad neu'r adrannau hynny.
- 2.4 Mewn achos lle mae dau unigolyn yn penderfynu rhannu un swydd, at bob pwrpas yn yr etholiad, cânt eu trin fel pe baent yn un ymgeisydd, er enghraifft byddant yn cael gwario'r un faint ar ymgyrchu, lle cyfartal ar gyfer cyhoedduswydd a bydd unrhyw gosbau yn cael eu gweithredu'n gyfartal.
- Bydd aelodau sy'n penderfynu sefyll gyda'i gilydd yn cwrdd â staff cyn y cyfnod pleidleisio i fynd trwy ymarferoldeb sut y byddai cyfrifoldebau ac agweddau eraill yn cael eu rhannu pe byddent yn cael eu hethol. Bydd y drafodaeth hon yn cael ei dogfennu a'i chytuno gan y ddwy ochr.

## 3. Swyddog Etholiadau

- 3.1 Caiff y Swyddog Etholiadau ei benodi'n flynyddol gan Gyfarfod Blynyddol yr Aelodaeth. Bydd y Swyddog hwnnw'n annibynnol o'r Undeb ac ni fydd yn aelod o'r Undeb chwaith.
- 3.2 Bydd y Swyddog Etholiadau'n penodi aelod(au) o staff Undeb y Myfyrwyr yn Ddirprwy Swyddog(ion) Etholiadau i weithredu ar ran y Swyddog Etholiadau i ddirprwyo dyletswyddau fel bo'n briodol.
- 3.3 Bydd y Swyddog Etholiadau a'r Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau yn gyfrifol am sicrhau bod holl etholiadau'r Undeb yn cael eu cynnal a'u gweinyddu'n dda.
- 3.4 Y Swyddog Etholiadau fydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am ddehongli'r rheolau a'r rheoliadau sy'n perthyn i'r etholiad, ynghyd â'r canllawiau a gyhoeddir.
- 3.5 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n cynnig amserlen ar gyfer yr etholiadau sy'n sicrhau etholiad amserol yr Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion, yr Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrrwyr, y Swyddogion Gwirfoddol a chynrychiolwyr i gynadleddau blynyddol UCM ac eraill fel bo'u hangen o bryd i'w gilydd.
- 3.6 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n cyhoeddi'r rheolau a rheoliadau'r etholiad cyn unrhyw etholiad. Bydd y rheolau a rheoliadau'n canolbwyntio ar sefydlu proses etholiadol deg a chllir; hefyd darparu eglurder ar ymddygiad, cyhoedduswydd a gwariant wrth ymgyrchu yn ogystal â chyfleusterau'r undeb sydd ar gael i'r ymgeiswyr.
- 3.7 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n trefnu cyfleoedd i fyfyrwyr holi'r ymgeiswyr.
- 3.8 Bydd modd i'r Swyddog Etholiadau wneud y canlynol:
- Diarddel neu gosbi ymgeiswyr;
  - Rhoi cyfarwyddiadau i ymgeiswyr yn ystod etholiad;

- c. Gorfodi ail-gyfrif;
- ch. Dileu etholiad a threfnu un newydd yn ei le.3.9 Bydd gan y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'r pŵer i wneud y canlynol:
  - a. Cosbi ymgeiswyr;
  - b. Rhoi cyfarwyddiadau i ymgeiswyr yn ystod etholiad;
  - c. Gorfodi ail-gyfrif;

## 4. Amserlen yr Etholiadau

4.1 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau yn cyhoeddi Amserlen yr Etholiad, a fydd yn cynnwys dyddiadau ac amseroedd ar gyfer cwblhau'r canlynol:

- a. Enwebiadau
  - b. Sesiwn Briffio'r Ymgeiswyr
  - c. Cyhoeddusrwydd
  - ch. Sesiwn Holi'r Ymgeiswyr (Ile bo'n briodol)
  - d. Pleidleisio
  - dd. Canlyniadau
- 4.2 Caiff Amserlen yr Etholiad ei chyhoeddi a'i dosbarthu'n ddigonol ynghyd â deunydd sy'n hyrwyddo'r etholiad.
- 4.3 Bydd y cyfnodau a nodir yn Amserlen yr Etholiad yn ddigonol i ganiatáu'r lefel uchaf rhesymol o gyfranogiad yn yr etholiad.

## 5. Enwebiadau

- 5.1 Caiff yr enwebiadau eu cyflwyno yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.
- 5.2 Bydd y cyfnod enwebu'n para o leiaf saith (7) diwrnod llawn cyn i'r cyfnod canfasio ddechrau
- 5.3 Pan fydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n fodlon, caiff pob enwebiad dilys ei gadarnhau â'r ymgeiswyr.

## 6. Cyhoeddusrwydd Ymgeiswyr

- 6.1 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n cyhoeddi canllawiau ar gyhoeddusrwydd yn y rheolau a rheoliadau ar gyfer etholiadau.
- 6.2 Caiff cyhoeddusrwydd ond ei dderbyn os caiff ei gyflwyno erbyn y dyddiad a nodir yn Amserlen yr Etholiadau.
- 6.3 Caiff cyhoeddusrwydd ei arddangos ar wefan yr Undeb ac unrhyw le arall sy'n addas ym marn y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

## 7 Ymddygiad yn ystod yr Etholiadau

- 7.1 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau, yn darparu canllawiau i'r ymgeiswyr ar ymddygiad derbynol yn ystod yr etholiadau. Rhaid i ymgeiswyr ymddwyn yn unol â'r canllawiau hyn.
- 7.2 Bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n darparu sesiynau hyfforddi ynghylch rheolau'r Is-Ddeddf hon ac unrhyw ganllawiau a gyflwynir i'r holl ymgeiswyr.
- 7.3 Trwy gydol etholiad yn ogystal â deddfau a rheolau ehangach sy'n bodoli eisoes ar gyfer llywodraethu ymddygiad unigolion a myfyrwyr, rhaid i bob ymgeisydd gadw at yr egwyddorion canlynol o ymddygiad derbynol:
- a. Gwneud dim ond yr hyn sydd gan ymgeiswyr eraill gyfle cyfartal i'w wneud;
  - b. Trin pob myfyriwr, ymgeisydd ac aelod staff â pharch.
- 7.4. Mae ymddygiad annerbyniol yn ystod etholiadau'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, unrhyw un o'r arferion canlynol (gan gynnwys unrhyw ymgais i wneud hynny):
- a. Defnyddio adnoddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr i hybu etholiad ymgeisydd (ac eithrio pan fydd y Swyddog Etholiadau'n caniatáu i hynny ddigwydd);
  - b. Anharddu neu ymyrryd ar gyhoeddusrwydd ymgeisydd;
  - c. Llwgwrwbrwyo pleidleiswyr neu swyddogion etholiadol;
  - ch. Ymddygiad sy'n fygythiol, yn aflonyddu neu'n peryglu llesiant a diogelwch eraill;
  - d. Cynhyrchu cyhoeddusrwydd sarhaus neu ddifenwol;
  - dd. Atal pleidlais rydd a chyfrinachol pleidleiswyr, gan gynnwys defnyddio dyfeisiadau symudol yn amhriodol;

e. Peryglu neu amharu ar gywirdeb yr etholiad.

7.5 Gall y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau gosbi ymgeiswyr am weithredu'n groes i'r canllawiau ar gyfer ymddygiad. Mewn achosion o ddiarddel ymgeisydd neu ddirymu etholiad, rhaid gwneud y penderfyniad terfynol mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Etholiadau.

7.6 Gall ymgeiswyr ddefnyddio ymgyrchwyr unigol sy'n eu cynorthwyo yn ystod yr etholiad; weithiau cyfeirir atynt hefyd fel tîm ymgyrchu. Diffinnir ymgyrchydd fel rhywun y gellir credu'n rhesymol ei fod yn gweithredu ar ran ymgeisydd i hyrwyddo etholiad yr ymgeisydd hwnnw.

7.7 Bydd ymgeiswyr yn gyfrifol am ymddygiad yr ymgyrchwyr, ac o'r herwydd rhaid iddyn nhw wneud popeth sy'n ymarferol bosib i sicrhau bod yr ymgyrchwyr yn dilyn yr Is-ddeddf hon a'r canllawiau a gyflwynir. Caiff unrhyw ymgyrchwyr sy'n gweithredu'n groes i'r Is-ddeddf hon ac mewn unrhyw ganllawiau a gyflwynir, eu trin fel pe bai'r ymgeisydd ei hun wedi torri'r Is-ddeddf a'r canllawiau a gyflwynir.

7.8 At ddibenion etholiad, diffinnir ymgyrchu fel gweithio mewn ffordd drefnus a gweithredol tuag at nod penodol megis ethol ymgeisydd.

## 8. Ymgeiswyr sydd eisoes yn dal swyddi

8.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion ar hyn o bryd roi gwybod i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau eu bod am gymryd gwyliau â thâl os ydynt yn dymuno ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu yn ystod oriau swyddfa cyffredin yng nghyfnod yr etholiad.

8.2 Ni chaiff Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion ar hyn o bryd ddefnyddio unrhyw adnoddau sy'n perthyn i'w swydd bresennol i'w cynorthwyo mewn unrhyw ymgyrch etholiadol.

8.3 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cynhyrchu gwybodaeth i gynorthwyo'r rheiny sydd eisoes yn Ymddiriedolwyr mewn cydymffurfio â Chymal 7 yr Is-ddeddf hon.

## 9. Pleidleisio

9.1 Caiff manylion yr etholiadau a'r broses bleidleisio eu cyhoeddi drwy wefan Undeb y Myfyrwyr, ac unrhyw le arall sy'n addas ym marn y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

9.2 Caiff pob etholiad ei gynnal drwy bleidlais gudd lle na fydd gan bob pleidleisiwr ond un bleidlais drosglwyddadwy. Bydd yn dilyn y fethodoleg a osodwyd gan Gymdeithas Newid Etholiadol Prydain Fawr ac Iwerddon yn 1997.

9.3 Bydd Ail-agor Enwebiadau yn ymgeisydd ym mhob etholiad. Os caiff Ail-agor Enwebiadau ei ethol, bydd y rôl yn wag a chynhelir etholiad newydd ar amser a dyddiad a gyhoeddir gan y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau.

9.4 Ni chaiff y pleidleisiau eu cyfrif pan fydd disgwyl am benderfyniad ar gŵyn. Mewn achos o'r fath, gellir dal canlyniadau unigol yn ôl hyd nes y bydd y cwynion wedi'u datrys.

## 11. Cwynion

11.1 Caiff cwynion bod ymgeisydd neu aelod o'i ymgyrch wedi ymddwyn yn groes i'r Is-ddeddf neu ganllawiau a gyhoeddir eu derbyn hyd at un awr wedi diwedd y bleidlais.

11.2 Rhaid cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig neu ar ffurf a benderfynir gan y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau.

11.3 Os oes angen, bydd y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau'n ymchwilio i'r gŵyn er mwyn casglu tystiolaeth bellach.

11.4 Bydd y Swyddog Etholiadau, a lle bo hynny'n briodol y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau yn gwneud penderfyniad ar y gŵyn ac, os oes angen, bydd yn cyflwyno cosb yn ôl eu disgrisiwn. Gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- a. Gohirio etholiadau ar gyfer rolau penodol
- b. Cyfeirio mater at weithdrefnau disgyblu'r Undeb neu'r Brifysgol
- c. Diarddel ymgeiswyr penodol

## 12. Apeliadau

12.1 Gellir apelio yn erbyn penderfyniad y Swyddog Etholiadau ar y seiliau canlynol:

- a. Os yw'r dehongliad o'r is-ddeddf hon neu unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ystod yr etholiad yn afresymol;
- b. Ni chafodd y weithdrefn gywir a ddisgrifir yn yr is-ddeddf hon neu ganllawiau a gyhoeddwyd eu dilyn;

c. Mae'r Swyddog Etholiadau neu'r Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau wedi dangos rhagfarn neu duedd at ymgeisydd;

ch. Mae'r Swyddog Etholiadau neu'r Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau wedi methu ag ystyried y dystiolaeth sydd ar gael.

12.2. Rhaid gwneud apêl cyn hanner-dydd fan pellaf ar y diwrnod ar ôl i benderfyniad y Swyddog Etholiadau gael ei gyfathrebu i'r ymgeisydd hwnnw.

12.3 Os caiff apêl ei gwneud gan ymgeisydd, caiff panel apeliadau ei greu gan aelod o staff Undeb y Myfyrwyr sydd heb fod yn rhan o weinyddu'r etholiad hwnnw. Bydd y panel apeliadau'n cynnwys Ysgrifennydd y Brifysgol a dau unigolyn annibynnol a fyddai'n gymwys i gael eu penodi'n Swyddog Etholiadau.

12.4 Bydd y panel apeliadau'n penodi cadeirydd o blith ei aelodaeth.

12.5 Bydd y panel apeliadau'n clywed tystiolaeth gan y Dirprwy Swyddog(ion) Etholiadau ac unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan yr ymgeisydd sy'n gwneud yr apêl.

Mae penderfyniad y panel apeliadau'n derfynol ac ni ellir apelio'r mater ymhellach.

### 13. Datganiad

Caiff canlyniadau'r etholiadau eu cyhoeddi gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau pan fydd y cyfrif ar gyfer pob swydd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Gosodir canlyniadau'r etholiadau ar wefan yr Undeb o fewn un (1) diwrnod gwaith o'r cyfrif.